Un Llais Cymru

One Voice Wales

Cwrteisi a Pharch

AR Y CYD GYDA'R SLCC, NALC, UN LLAIS CYMRU a CHYMDEITHASAU SIROL

Un Llais Cymru

One Voice Wales

Cyngor Cymunedd Llanllawddog

# Addewid Cwrteisi a Pharch

Mae gwrteisi yn golygu bod yn foesgar ac yn gwrtais mewn ymddygiad, lleferydd a'r gair ysgrifenedig. Mae enghreifftiau o ffyrdd y gallwch ddangos parch yn cynnwys gwrando ar eraill a rhoi sylw iddynt, ystyried teimladau pobl eraill, dilyn protocolau a rheolau, dangos gwerthfawrogiad a diolch, a bod yn garedig. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol (NALC), Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC), ac Un Llais Cymru (OVW) yn credu mai nawr yw'r amser i flaenoriaethu gwrteisi a pharch a dechrau newid diwylliant o fewn y sector cynghorau lleol.Drwy lofnodi'r Addewid Gwrteisi a Pharch, mae ein cyngor yn dangos ei ymrwymiad i drin cynghorwyr, clercod, gweithwyr, aelodau'r cyhoedd, cynrychiolwyr sefydliadau partner a gwirfoddolwyr gyda gwrteisi a pharch yn eu rolau. Mae cofrestru yn broses syml a di-gymhleth, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gofrestru gydag Un Llais Cymru a chytuno i'r datganiadau canlynol:

Dyddiad Cyfarfod 11 Fai 2026 Arwyddwyd Cynghorydd Steven Mason, Cadeirydd

| Datganiad | Ticio |
|---|---|
| Mae ein cyngor wedi cytuno y bydd yn trin pob cynghorydd, y clerc a'r holl weithwyr, aelodau'r cyhoedd, cynrychiolwyr sefydliadau partner a gwirfoddolwyr gyda gwrteisi a pharch yn eu rolau. | |
| Mae ein cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddi ar gyfer cynghorwyr a staff. | |
| Mae ein cyngor wedi darparu'r Cod Ymddygiad i gynghorwyr. | |
| Mae gan ein cyngor drefniadau llywodraethu da ar waith, gan gynnwys contractau staff a pholisi urddas yn y gwaith. | |
| Mae ein cyngor yn ymrwymo i geisio cymorth proffesiynol yn gynnar os bydd problemau'n codi ynghylch gwrteisi a pharch. | |
| Mae ein cyngor yn ymrwymo i herio bwlio ac aflonyddu pan fo'n digwydd. | |
| Bydd ein cyngor yn parhau i ddysgu o arferion gorau yn y sector ac yn anelu at fod yn esiampl. | |
| Mae ein cyngor yn cefnogi Un Llais Cymru mewn perthynas â'i waith gyda Llywodraeth Cymru i wella effeithiolrwydd y fframwaith moesegol yng Nghymru. | |